WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol? – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**


Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 626A2018-19

Mae’r ddogfen hon wedi’i pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall yn eu swyddi unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os daw cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae’r Cod ar gyfer adran 45 yn nodi’r arferion a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ddelio â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am ddatgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in Welsh.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Samantha Clements, Ian Phillips a Sara-Jane Byrne o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu'r Cyngor yn cael ei chyflawni'n effeithiol, ond mae angen addasu er mwyn ateb heriau yn y dyfodol a dylid ystyried cyfleoedd i weithio mewn ffordd wahanol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer Gwella 5

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi rôl ei swyddogaeth graffu, ond dylai ystyried pa fath o gefnogaeth a hyfforddiant sydd eu hangen i helpu aelodau craffu ymateb yn effeithiol i heriau nawr ac yn y dyfodol 6

Mae cyfarfodydd pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi'u trefnu'n effeithiol, ond mae lle i wella o ran cynllunio eitemau ar gyfer yr agenda ac i sicrhau bod aelodau craffu yn cael gwybodaeth mewn modd amserol 7

Dylai'r Cyngor edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn gwella effaith gweithgareddau craffu a defnyddio'r adnoddau sydd ganddo yn fwy effeithiol 9

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion ar gyfer trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol 11

Atodiad 2 – argymhellion o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ei astudiaeth wella genedlaethol, sef 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014) 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Gyda'r 22 cyngor sydd yng Nghymru, buom yn archwilio pa mor 'addas ar gyfer y dyfodol' yw eu swyddogaethau craffu. Fe wnaethon ni ystyried sut mae cynghorau'n ymateb i heriau cyfredol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yng nghyswllt eu gweithgareddau craffu, yn ogystal â sut mae cynghorau yn dechrau ar y gwaith o graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Buom hefyd yn archwilio pa mor dda yw sefyllfa'r cynghorau o ran eu gallu i ymateb i heriau yn y dyfodol, megis y pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r posibilrwydd o symud tuag at fwy o gydweithio ar lefel ranbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Fel rhan o'r adolygiad hwn buom hefyd yn adolygu cynnydd cynghorau o ran rhoi sylw i'r argymhellion yn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol, sef **Craffu Da? Cwestiwn Da!** (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Aethom hefyd ar drywydd cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i graffu a gyhoeddwyd gennym mewn adroddiadau lleol, gan gynnwys y rheini a ddosbarthwyd i gynghorau fel rhan o'n hadolygiadau thematig o Gynllunio Arbedion a Threfniadau Llywodraethu wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau yn 2016-17.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- canfod dulliau o wreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu fel sail ar gyfer rhannu arferion a llywio gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol yng nghyswllt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- rhoi sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau nawr ac yn y dyfodol;
- helpu i wreiddio craffu effeithiol ar ran aelodau etholedig o ddechrau'r cylch etholiadol newydd ymlaen; a
- gweld pa mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu flaenorol.

4 Fel sylfaen i'n canfyddiadau, fe wnaethon ni seilio ein dull adolygu ar y Canlyniadau a'r Nodweddion ar gyfer Trosolwg a Chraffu Effeithiol ar ran Llywodraeth Leol yr oedd rhanddeiliaid craffu yng Nghymru wedi eu llunio ac wedi cytuno arnynt yn sgil ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol, sef **Craffu Da? Cwestiwn Da!**[1]

5 Fe wnaethon ni gynnal ein gwaith maes rhwng mis Hydref 2017 a mis Ionawr 2018. Fe wnaethon ni gynnal adolygiadau o ddogfennau a chyfweld nifer o swyddogion allweddol, ynghyd â chynnal grwpiau ffocws gyda chynghorwyr allweddol er mwyn deall eu barn am drefniadau craffu presennol Cyngor

[1] **Craffu Da? Cwestiwn Da!** – Astudiaeth Wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: craffu mewn Llywodraeth Leol Mai 2014

Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) ac, yn arbennig, sut mae'r Cyngor yn ymdrin â'r heriau a nodwyd uchod a sut mae'n bwriadu ymateb iddynt.

6 Buom yn arsylwi mewn sampl o gyfarfodydd craffu ac adolygu dogfennau cyfarfodydd perthnasol a ddarparwyd i aelodau i'w cynorthwyo gyda'u rôl graffu, megis adroddiadau a chyflwyniadau.

7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad fod **swyddogaeth trosolwg a chraffu'r Cyngor yn cael ei chyflawni'n effeithiol, ond mae angen addasu er mwyn ateb heriau yn y dyfodol a dylid ystyried cyfleoedd i weithio mewn ffordd wahanol**. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

   a. mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi rôl ei swyddogaeth graffu, ond dylai ystyried pa fath o gefnogaeth a hyfforddiant sydd eu hangen i helpu aelodau craffu ymateb yn effeithiol i heriau nawr ac yn y dyfodol;

   b. mae cyfarfodydd pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi'u trefnu'n effeithiol, ond mae lle i wella o ran cynllunio eitemau ar gyfer yr agenda ac i sicrhau bod aelodau craffu yn cael gwybodaeth mewn modd amserol;

   c. dylai'r Cyngor edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn gwella effaith gweithgareddau craffu a defnyddio'r adnoddau sydd ganddo yn fwy effeithiol.

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion o ran ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu er mwyn iddi fod mewn sefyllfa well i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.

## Eitem 1: cynigion ar gyfer gwella

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor edrych ar ffyrdd mwy arloesol o gyflawni gweithgareddau craffu er mwyn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y modd mwyaf effeithiol a gwella effaith gweithgareddau craffu. |
| C2 | Dylai'r Cyngor ddarparu gwybodaeth y mae pwyllgorau craffu yn gofyn amdani yn fwy prydlon er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith yn fwy effeithiol. |
| C3 | Dylai'r Cyngor ystyried y sgiliau a'r hyfforddiant y gallai aelodau craffu fod eu hangen er mwyn eu paratoi'n well ar gyfer heriau nawr ac yn y dyfodol a llunio a darparu rhaglen hyfforddi a datblygu briodol. |
| C4 | Dylai'r Cyngor ystyried sut y gallai gynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn ei weithgareddau craffu. |
| C5 | Dylai'r Cyngor ailedrych ar y math o gefnogaeth sydd ei hangen o ran craffu er mwyn i'r swyddogaeth graffu allu ymateb i heriau nawr ac yn y dyfodol. |

# Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi rôl ei swyddogaeth graffu, ond dylai ystyried pa fath o gefnogaeth a hyfforddiant sydd eu hangen i helpu aelodau craffu ymateb yn effeithiol i heriau nawr ac yn y dyfodol

9 Fel rhan o’n hadolygiad, fe wnaethon ni edrych ar yr amgylchedd y mae craffu yn digwydd ynddo, gan gynnwys o ran eglurder rolau, y ddarpariaeth o hyfforddiant, cefnogaeth i aelodau'r pwyllgor craffu a'r berthynas rhwng y corff craffu a’r tîm gweithredol. Yn ein hadroddiad **Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau**[2], a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017, fe wnaethon ni ganfod fod Cabinet y Cyngor yn gwerthfawrogi rôl y swyddogaeth graffu. Felly y mae o hyd. Mae rolau gwahanol aelodau Craffu ac aelodau'r Cabinet yn glir. Mae aelodau’r Cabinet yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau trosolwg a chraffu pan maent yn cael eu gwahodd iddynt ac yn ateb cwestiynau sy'n galluogi’r aelodau craffu i ddal aelodau'r Cabinet i gyfrif. Mae aelodau craffu yn glir eu meddwl ynghylch a ddylid cyfeirio cwestiynau at swyddogion neu at aelodau'r Cabinet, ac felly yn gwybod pwy maen nhw’n ei ddal i gyfrif. Ond nid oedd pob aelod o'r Cabinet yn teimlo bod y cwestiynau y mae aelodau’r pwyllgor craffu yn eu gofyn yn eu herio’n effeithiol. Felly mae lle i aelodau craffu ofyn cwestiynau mwy manwl a threiddgar.

10 Fe wnaethon ni hefyd ystyried pa gymorth oedd ar gael i aelodau craffu. Mae gan aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu feddwl mawr o'r gefnogaeth maent yn ei chael gan swyddogion craffu'r Cyngor. Fodd bynnag, mae lefel y gefnogaeth i'r swyddogaeth graffu wedi lleihau dros amser, yn unol â gostyngiadau yng nghyllideb y gwasanaeth. Dywedodd aelodau wrthym fod capasiti'r swyddogion cymorth craffu dan bwysau ac mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ganddynt i wneud gwaith ymchwil. Gyda'r pwysau cynyddol sydd ar adnoddau, ac yng ngoleuni heriau cyfredol ac yn y dyfodol, mae cyfle i'r Cyngor ystyried pa fath o gefnogaeth sydd ei hangen ar ei weithgareddau craffu er mwyn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r swyddogaeth craffu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

11 Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017, roedd bron i hanner yr aelodau a etholwyd i'r Cyngor yn newydd. Felly, mae sicrhau bod yr aelodau hyn yn gallu ymateb yn effeithiol i heriau nawr ac yn y dyfodol yn hanfodol. Roedd y Cyngor wedi rhoi hyfforddiant cynefino ym maes craffu i aelodau yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2017. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys sesiynau ar rôl pwyllgorau a chraffu, sgiliau holi perthnasol i graffu a chadeirio cyfarfodydd craffu. Cafodd yr hyfforddiant dderbyniad da gan aelodau craffu, ond nid oedd gymaint â hynny o bobl wedi mynychu. Er enghraifft, roedd 14 aelod yn bresennol yn y

[2] **Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau** – adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mai 2017.

digwyddiad hyfforddi ar Rôl Pwyllgorau a Chraffu ar 10 Mai 2017. Roedd saith aelod arall yn bresennol yn y sesiwn ychwanegol a drefnwyd ar gyfer 15 Mai 2017.

12 Roedd aelodau Cabinet y Cyngor o'r farn y gallai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 roi rôl bwerus i aelodau craffu. Ond, gwelsom nad oedd aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu yn teimlo'n barod i helpu i wreiddio egwyddorion y ddeddf honno ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Byddai rhai aelodau'n gwerthfawrogi mwy o hyfforddiant yng nghyswllt y mater hwn.

13 Hefyd, mae cyfle i'r Cyngor bwyso a mesur yr amrywiol sgiliau a'r wybodaeth y bydd angen i'w aelodau craffu eu cael i ymateb yn fwy effeithiol i heriau cyfredol ac yn y dyfodol. Wrth wneud hyn, dylai'r Cyngor hefyd ystyried y rolau allweddol y mae am i'w aelodau craffu eu cyflawni. Mater i'r Cyngor yw penderfynu beth fydd cynnwys rhaglenni hyfforddiant. Fodd bynnag, mae cyfle i'r Cyngor ystyried a fyddai hyfforddiant mewn meysydd megis craffu ar drefniadau masnachol, cydweithredol a rhanbarthol, masnacheiddio, dadansoddi ariannol, arfarnu opsiynau, a chynnwys rhanddeiliaid ac aelodau wardiau yn y gwaith o graffu yn galluogi aelodau i fod mewn sefyllfa well i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i'r Cyngor barhau i wynebu pwysau sylweddol.

## Mae cyfarfodydd pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi'u trefnu'n effeithiol, ond mae lle i wella o ran cynllunio eitemau ar gyfer yr agenda a sicrhau bod aelodau craffu yn cael gwybodaeth mewn modd amserol

14 Fel rhan o'n hadolygiad, buom yn arsylwi mewn sampl o gyfarfodydd pwyllgor trosolwg a chraffu'r Cyngor. Gwelsom eu bod, at ei gilydd, wedi'u trefnu'n dda, bod ffocws penodol iddynt a'u bod yn cael eu cadeirio'n effeithiol, gyda'r aelodau craffu yn holi mewn ffordd adeiladol.

15 Ond, wedi dweud hynny, fe wnaethon ni hefyd sylwi ar y materion canlynol sy'n awgrymu bod angen i'r Cyngor atgyfnerthu'r elfen o gynllunio ymlaen llaw yn ei weithgareddau craffu er mwyn sicrhau bod eitemau'n cael eu hystyried mewn modd amserol a bod effaith a rôl bwrpasol i'r swyddogaeth graffu:

- roedd pwyllgor trosolwg a chraffu ar bwnc 1 wedi ystyried y diwygiadau i 'r ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar ôl i'r cyfnod cenedlaethol a bennwyd ar gyfer yr ymgynghoriad ddod i ben. Felly nid oedd modd ystyried sylwadau'r pwyllgor craffu yn y broses ymgynghori allanol.
- Roedd Adroddiad Blynyddol y Panel Ymgysylltu ag Ysgolion ac Aelodau ar gyfer 2014-15 ar agenda cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ar 20 Ebrill 2017, ddwy flynedd ar ôl i'r adroddiad gael ei ysgrifennu. Rhaid cwestiynu a oedd hyn yn ffordd dda o ddefnyddio amser y

Pwyllgor ac, o gofio'r amserlen, pwrpas y Pwyllgor wrth ystyried yr eitem hon ar y pryd.

16 Mae gan swyddogaeth trosolwg a chraffu’r Cyngor ddull o olrhain ceisiadau am wybodaeth gan bwyllgorau craffu. Mae ganddo hefyd brotocol ar gyfer ymatebion y Cabinet i argymhellion pwyllgorau craffu. Ond, er gwaethaf y dull hwn a’r protocol, yn ystod ein hadolygiad, roedd aelodau wedi codi pryder nad oeddynt bob amser yn cael yr wybodaeth maen nhw wedi gofyn amdani yn ystod cyfarfodydd y pwyllgor trosolwg a chraffu. Mae ein harsylwadau o sampl o bwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor, a’n hadolygiad o bapurau'r pwyllgor craffu, yn ategu’r pryder hwn. Dylai’r Cyngor sicrhau ei fod yn ymateb mewn modd amserol i geisiadau am wybodaeth gan aelodau craffu, a chymryd bod y pwyllgor a/neu gadeirydd y pwyllgor yn cytuno bod ceisiadau o'r fath yn angenrheidiol ac yn berthnasol i weithgareddau'r pwyllgor craffu.

17 Roedd ein hadroddiad ar yr astudiaeth gwella craffu ym mis Mai 2014, Craffu Da? Cwestiwn Da! (gweler Troednodyn 1) yn argymell bod cynghorau yn datblygu eu prosesau blaenraglennu gwaith craffu i gynnwys y canlynol:

- darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;
- canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;
- sicrhau bod y dull craffu mwyaf addas yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y maes pwnc a’r canlyniad y gobeithir amdano; a
- chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella’r cyngor.

18 Mae datblygu blaenraglenni gwaith craffu yn eitem sefydlog ar agendâu pwyllgorau craffu, ac mae pwyllgorau yn cael digon o gyfle i wneud sylwadau a llunio eu blaenraglenni gwaith perthnasol. Felly, mae rhaglenni gwaith y pwyllgor dan sylw ar gael i'r cyhoedd gan eu bod yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor fel rhan o’r papurau ar gyfer agenda bob cyfarfod o'r pwyllgor craffu. Mae'r rhaglenni gwaith hefyd yn cynnwys manylion y pynciau sydd i'w hystyried a rhesymeg glir dros ddewis pynciau penodol i graffu arnynt.

19 Fodd bynnag, nid yw blaenraglenni gwaith y pwyllgor craffu ar gael fel dogfennau annibynnol ar wefan y Cyngor, er bod tudalen bwrpasol ar y wefan ar gyfer blaenraglen waith y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Corfforaethol. Mae hyn yn ei gwneud yn anos i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill weld pa bynciau sydd i fod i gael eu hystyried ac, er enghraifft, i ganfod pynciau y byddan nhw’n hoffi cynnig sylwadau arnynt er mwyn llywio trafodaethau’r pwyllgor.

20 Ym mis Tachwedd 2017, roedd y Cyngor wedi sylweddoli nad oedd digon o gydgysylltiad rhwng blaenraglen waith y Cabinet a blaenraglenni gwaith y pwyllgor craffu. Roedd y Cyngor wedi mynd i’r afael â hyn drwy drefnu cyfarfodydd datblygu chwarterol rhwng cadeiryddion craffu ac aelodau’r Cabinet gyda’r nod o gael eu rhaglenni gwaith perthnasol i gyd-fynd â’i gilydd yn well.

21 Yn yr Adroddiad Trosolwg a Chraffu Blynyddol ar gyfer 2015-16, nodwyd bod angen i'r swyddogaeth graffu barhau i ddatblygu'r gallu i gyfathrebu’n effeithiol â’r

cyhoedd ac i hwyluso ymwneud a chyfrannu ym maes atebolrwydd democrataidd. Yn Adroddiad Trosolwg a Chraffu Blynyddol 2016-17, nodir y byddai'r Cyngor yn cymryd nifer o gamau yn ystod 2017-18 i helpu gyda'r gwaith o fynd i'r afael â hyn, er enghraifft, drwy gynnal arolwg o drigolion drwy'r cyfryngau cymdeithasol ynghylch y materion yr hoffent i'r pwyllgor craffu eu trafod. Serch hynny, roedd rhai aelodau wedi mynegi'r farn y gallai'r cyhoedd a rhanddeiliaid gael eu cynnwys fwy mewn gweithgareddau craffu, a nifer cymharol fach o enghreifftiau roedden ni wedi'i weld o ymwneud rhanddeiliaid ar raddfa ehangach mewn gweithgareddau craffu.

22 Fel rhan o'n hadolygiad fe wnaethon ni ystyried sut mae cynghorau'n dechrau craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gan y Cyngor Banel Craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac roedd y panel hwn wedi cyfarfod ym mis Hydref 2017. Mae'n rhy gynnar yn natblygiad prosesau Craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar hyn o bryd i ni wneud sylwadau ar ba mor effeithiol yw'r trefniadau hyn yn y Cyngor.

## Dylai'r Cyngor edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn gwella effaith gweithgareddau craffu a defnyddio'r adnoddau sydd ganddo yn fwy effeithiol.

23 Yn ein hadroddiad ar yr Astudiaeth Wella Genedlaethol **Craffu Da? Cwestiwn Da!** ym mis Mai 2014 (gweler Troednodyn 1), fe wnaethon ni argymell bod cynghorau yn sicrhau bod effaith craffu yn cael ei gwerthuso'n iawn ac y gweithredir ar yr effaith honno er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth, gan gynnwys mynd ar drywydd camau gweithredu ac archwilio canlyniadau.

24 Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017, roedd y Cyngor wedi lleihau nifer y pwyllgorau craffu o bump i bedwar, yn rhannol er mwyn adlewyrchu portffolios trawsbynciol Aelodau'r Cabinet yn well. Mae'r Cyngor yn gwerthuso effaith ei swyddogaeth graffu drwy lunio adroddiadau craffu blynyddol a drwy gadw taenlen o'r enw 'Effaith a Chanlyniadau Craffu'. Mae adroddiad craffu blynyddol y Cyngor ar gyfer 2016-17 yn nodi rhai enghreifftiau ble mae'r swyddogaeth graffu wedi cael effaith, er enghraifft, roedd y Panel Gwerthuso ac Ymchwil Cyllidebau wedi gwneud nifer o argymhellion i'r Cabinet, ac roedd y Cabinet wedi mabwysiadu'r mwyafrif ohonynt. Fodd bynnag, nid pwyllgor craffu yw'r Panel Gwerthuso ac Ymchwil Cyllidebau mewn gwirionedd ac, at ei gilydd, roedd y dystiolaeth o effaith yn yr adroddiad blynyddol yn gyfyngedig. Yn yr un modd, nid yw'r daenlen 'Effaith a Chanlyniadau Craffu' yn cynnwys llawer o enghreifftiau o effaith y swyddogaeth graffu.

25 Er i ni ganfod bod aelodau'r pwyllgor craffu, at ei gilydd, yn ymroddedig ac yn gofyn cwestiynau perthnasol, dywedodd rhai aelodau wrthym fod y swyddogaeth graffu yn aneffeithiol yn eu barn nhw ac nad oedd yn cael llawer o effaith. Yn ystod ein

hadolygiad, fe wnaethon ni ofyn i aelodau a swyddogion ddarparu enghreifftiau o sefyllfaoedd pan oedd craffu wedi cael effaith gadarnhaol, ond digon cyfyngedig oedd yr enghreifftiau hynny.

26 Fel y mae mewn llawer cyngor arall yng Nghymru, mae’r mwyafrif o weithgareddau craffu yn digwydd mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol pan ystyrir adroddiadau swyddogion. Mae gan y Cyngor bedwar prif bwyllgor trosolwg a chraffu (heb gynnwys y panel craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) ac mae bob un ohonynt yn cyfarfod saith neu wyth gwaith y flwyddyn. Mae angen adnoddau i gynnal y cyfarfodydd craffu eu hunain a hefyd mae'n rhaid i swyddogion ac aelodau gael adnoddau i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

27 Canfu adroddiad y Gymdeithas er Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (APSE) ar gyfer 2017: **Accountability and Scrutiny – The issues for local government in a changing political environment** [3] mai un o'r prif rwystrau o ran cael y swyddogaeth graffu i ychwanegu gwerth, oedd diffyg creadigrwydd. Er bod y Cyngor wedi newid ei drefniadau craffu, mae gweithgareddau craffu yn parhau i gael eu cynnal i raddau helaeth drwy gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol. Dylai'r Cyngor ystyried a fyddai cynnal agweddau ar weithgareddau craffu y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol yn helpu o ran cryfhau effeithiolrwydd y swyddogaeth graffu. Nid oes yn rhaid cyfyngu gweithgareddau craffu i bwyllgorau ffurfiol. Mae sawl enghraifft o sefydliadau yn rhoi cynnig ar ddulliau gwahanol o fynd ati yng nghyswllt craffu, o gynnwys sefydliadau'r trydydd sector i helpu i gynllunio a phennu cwmpas y gwaith i aelodau craffu yn mynd allan i'r gymuned i holi pobl yn uniongyrchol er mwyn cael adborth amser real i'r pynciau maent am eu rhoi ar yr agenda. Dylai’r Cyngor archwilio sut mae cyrff eraill, gan gynnwys cyrff y tu hwnt i Gymru, wedi bod yn cynnal gweithgareddau craffu mewn ffordd wahanol. Nid yw hyn o anghenraid yn golygu cymorth ychwanegol, ond, yn hytrach, defnyddio gallu a sgiliau swyddogion ac aelodau mewn ffordd wahanol. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwerthuso pa mor effeithiol yw ei drefniadau newydd ar gyfer y pwyllgor craffu ym mis Ebrill 2018.

28 Mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol. Mae ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018-19 i 2021-22[4] yn nodi bod yn rhaid i'r Cyngor wneud arbedion gwerth £32 miliwn. Yn ngoleuni'r her ariannol hon ac o gofio'r dystiolaeth gyfyngedig o effaith trefniadau craffu'r Cyngor, dylai'r Cyngor ystyried a oes ffyrdd gwahanol, sy’n fwy creadigol ac arloesol, o gynnal gweithgareddau craffu er mwyn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y modd mwyaf effeithiol, a galluogi gweithgareddau craffu i gael mwy o effaith.

[3] Adroddiad y Gymdeithas er Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE): **Accountability and Scrutiny – The issues for local government in a changing political environment**

[4] Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr 2018-19 a'r Dreth Gyngor 2018-19

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol

Eitem 2: canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni?** | **Sut beth fyddai hyn? Sut byddem ni'n ei adnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br>**'Gwasanaethau Gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae swyddogaeth werthfawr sydd wedi'i diffinio'n glir i graffu yn nhrefniadau gwella'r cyngor<br>ii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael cefnogaeth swyddogion pwrpasol sy'n gallu ymgymryd â gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol a rhoi hyfforddiant, cyngor a gwasanaeth dadansoddi o ansawdd uchel i aelodau'r pwyllgor Craffu.<br><br>**Ymarfer**<br>iii) Mae ymchwiliadau Trosolwg a Chraffu yn anwleidyddol gyda methodoleg gadarn sy'n ymgorffori amrywiaeth eang o safbwyntiau a thystiolaeth.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio darparwyr gwasanaethau a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae'r swyddogaeth graffu yn darparu atebion ymarferol sydd wedi'u hategu â thystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni?** | **Sut beth fyddai hyn? Sut byddem ni'n ei adnabod?** |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br>**'Penderfyniadau gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr craffu yn cael yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael ei chefnogi'n effeithiol gan Dîm Rheolaeth Gorfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod swyddogion craffu yn cael gwybodaeth o ansawdd uchel mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Ymarfer**<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael ei harwain gan yr Aelodau ac yn arddel 'perchnogaeth' ar ei rhaglen waith, gan ystyried barn y cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr a sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi blaenoriaeth i bryderon y gymuned a materion o risg a phwysigrwydd strategol.<br>iv) Mae rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at ddatblygu a chyflawni blaenraglenni gwaith ym maes craffu.<br>v) Mae cyfarfodydd a gweithgareddau trosolwg a chraffu wedi'u cynllunio'n dda, maent yn cael eu cadeirio'n effeithiol ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau bosib.<br><br>**Effaith**<br>vi) Mae Aelodau Anweithredol yn darparu gwasanaeth cadw cydbwysedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau ar lefel Weithredol.<br>vii) Mae'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn rhoi cyfrif drostynt eu hunain yn gyhoeddus mewn pwyllgorau craffu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau portffolio. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol.** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae'r Tîm Rheolaeth Gorfforaethol a Gweithredol yn cydnabod bod craffu yn ddull pwysig y gall y cyngor ei ddefnyddio i ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Ymarfer**<br>ii) Mae cyfathrebu effeithiol yn nodweddiadol o'r swyddogaeth graffu er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog pobl i ymwneud â hynny.<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn gweithredu mewn ffordd anwleidyddol ac yn delio'n effeithiol â gwrthdaro, tensiwn a materion gwleidyddol sensitif.<br>iv) Mae'r swyddogaeth graffu yn meithrin ymddiriedaeth a pherthynas dda ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi 'llais' cymunedau a phobl leol ledled yr ardal i gael ei glywed fel rhan o brosesau gwneud polisïau a phenderfyniadau. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o adroddiad astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ‘Craffu Da? Cwestiwn Da!’ (Mai 2014)

Eitem 3: argymhellion **Craffu Da? Cwestiwn Da!** Astudiaeth Gwella Craffu

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i wneud gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau bod y dull craffu mwyaf addas yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y maes pwnc a’r canlyniad y gobeithir amdano; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella’r cyngor. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 | Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo’n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Trosolwg a Chraffu Cymru. | Cyngor |
| A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.archwilio.cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru